# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar King Henry VIII 3-19 School

Dyddiad yr arolygiad: 02/02/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Ers ei hagor ym mis Medi 2023, mae arweinwyr a staff yn Ysgol 3-19 y Brenin Harri VIII wedi cydweithio'n effeithiol i sefydlu'r ysgol bob oed newydd. Bu uwch arweinwyr yn canolbwyntio i ddechrau ar feysydd allweddol yr oedd angen eu gwella ar unwaith, fel cefnogi lles disgyblion a gwella ansawdd yr addysgu. O ganlyniad i gynllun datblygu cychwynnol pwrpasol a chraff, bu gwelliannau clir yn ymddygiad ac agweddau disgyblion at ddysgu ac yn y cynnydd a wnânt mewn dysgu. Ceir diwylliant diogelu cryf ar draws yr ysgol a systemau effeithiol i gefnogi datblygiad emosiynol a chymdeithasol disgyblion sy'n golygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal da. Er bod cyfraddau presenoldeb ysgol gyfan wedi gwella, mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau yn rhy isel.

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu sy'n is na'r disgwyl ond maent yn gwneud cynnydd addas dros gyfnod, ac mae ychydig ohonynt yn cyflawni deilliannau cryf. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol mewn dysgu, yn barchus ac yn cydweithio'n dda â chyfoedion a staff. Mae llawer o athrawon yn cynllunio sesiynau strwythuredig sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion. Maent yn cynnal perthnasoedd gwaith cynhyrchiol â'u disgyblion ac yn defnyddio cwestiynnu effeithiol i ennyn eu diddordeb mewn dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae gwendidau mewn addysgu, fel cynllunio gwael, her annigonol ar gyfer disgyblion mwy abl ac amrywiaeth yn ansawdd yr adborth.

Mae cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder sy'n golygu bod llawer o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu hamcanion dysgu a chymdeithasol. Mae'r ysgol yn cynnal canolfan adnoddau arbenigol (CAA) sy'n darparu dosbarthiadau ar gyfer disgyblion â chyflyrau'r sbectrwm awtistig. Mae disgyblion ar draws yr ystod oedran sy'n mynychu'r cyfleuster hwn yn gwneud cynnydd da mewn medrau cymdeithasol a chyfathrebu dros amser.

At ei gilydd, mae medrau llythrennedd disgyblion yn datblygu'n addas, wedi eu cefnogi gan ddatblygiad diwylliant darllen cadarnhaol. Fodd bynnag, mae diffyg strategaeth glir i ddatblygu medrau rhifedd, digidol a Chymraeg disgyblion ar draws y cwricwlwm, ac mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yn anghyson.

Mae'r cwricwlwm yn addas, at ei gilydd, ac yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn. Ceir cyfleoedd allgyrsiol amrywiol gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu tu allan i'r ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, nid yw trefniadau addysgegol a threfniadau ar gyfer y cwricwlwm i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 bob amser yn addas ar gyfer eu cyfnod datblygiadol. Mae arweinwyr yn dechrau darparu cyfleoedd gwerthfawr i staff o wahanol gyfnodau neu ffes i gydweithio i gynllunio'r cwricwlwm a dysgu, ond nid yw hyn yn gyson ar draws meysydd dysgu. Ceir cyfleoedd anghyson ar draws yr oedrannau i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant Cymru yn fanwl, a'i archwilio.

Mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau rheolaeth llinell yn gydlynus a chyson ar draws y sectorau. Ceir cyfleoedd rheolaidd i arweinwyr ar bob lefel werthuso effeithiolrwydd eu gwaith trwy ystod addas o weithgareddau sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar o ran ystyried effaith y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar safonau a chynnydd disgyblion dros gyfnod. Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r pennaeth yn dda, yn monitro cyllidebau'n agos ac yn herio arweinwyr i wneud gwelliannau.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pump argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cryfhau'r cynllunio strategol ar gyfer datblygu medrau rhifedd, digidol a Chymraeg disgyblion yn gynyddol

A2 Sicrhau bod addysgeg a phrofiadau dysgu yn briodol i gyfnod datblygu disgyblion

A3 Gwella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

A4 Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a gwella yn canolbwyntio'n graff ar effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion dros gyfnod

A5 Parhau i ddatblygu'r ethos pob oed trwy ddarparu cyfleoedd i staff gydweithio ar draws sectorau a gwneud cyfraniad gwerthfawr at gyfeiriad strategol yr ysgol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2026